


ANWYL, JOHN BODVAN ('Bodfan'; 1875-1949), gweinidog gyda'r Annibynwyr, geiriadurwr, ac awdur



Enw: John Bodvan Anwyl
Ffugenw: Bodfan
Dyddiad geni: 1875
Dyddiad marw: 1949
Rhiant: Ellen Anwyl (née Williams)
Rhiant: John Anwyl
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: gweinidog gyda'r Annibynwyr, geiriadurwr, ac awdur
Maes gweithgaredd: Crefydd; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu; Ysgolheictod ac Ieithoedd
Awdur: Thomas Herbert Parry-Williams

Ganwyd 27 Mehefin 1875 yng Nghaer, yn fab i John Anwyl, pregethwr cynorthwyl, o deulu Anwyliad Caerwys, Sir y Fflint, ac Elen Williams ei wraig. Daeth yn weinidog ar eglwys Annibynnol Elim, Caerfyrddin, yn 1899. Oherwydd byddardod ymdeolodd o'i eglwys i gymryd gofal Sefydliad y Mud a'r Byddar, Pontypridd, Morgannwg, 1904-19. Ef, yn 1914, oedd yn gyfrifol am y chweched argraffiad o *Eiriadur Cymraeg-Saesneg Spurrell*; yn ddiweddarach, yn 1916, golygodd y seithfed argraffiad o *Eiriadur Saesneg-Cymraeg Spurrell*. Bu amryw argraffiadau pellach o'r rhain. Fe'i hapwyntiwyd yn 1921 yn Ysgrifennydd y *Geiriadur Cymraeg* oedd ar waith dan nawdd Bwrdd Gwybodau Celtaidd Prifysgol Cymru. Ar ôl ymneilltuo o'r swydd hon, ymsefydlodd yn Llangwnadl, Sir Gaernarfon, lle y bu farw, trwy fodd, 23 Gorffennaf 1949; fe'i claddwyd ym mynwent Penllech, Sir Gaernarfon.

Yr oedd ' Bodfan ' yn frawd i **Syr EDWARD ANWYL**. Fe gyfrannodd lawer iawn i newyddiaduron a chylchgronau Cymru. Golygodd adargraffiadau o *Drych y Prif Oesoedd a Gweledigaethau y Bardd Cwsc*. Ymhellach, ef oedd awdur *Y Pulpud Bach* (1924), *Yr Arian Mawr* (1934), *Fy Hanes I Fy Hunan* (1933), ac *Englynon* (1933), heblaw cyfieithiadau i Gymraeg o lyfrau a gyhoeddwyd gan Gymdeithas Genhadol Llundain, megis *Greatheart of Papua* W. P. Nairne, 1915.

Awdur

Syr Thomas Herbert Parry-Williams, (1887)

Ffynonellau

Y Faner, 10 Awst 1949

Western Mail, 27 Gorffennaf 1949

Y Cymro, 29 Gorffennaf 1949

Y Llan, 12 Awst 1949

Y Llusern: *cylchgrawn misol at wasanaeth eglwysi ac ysgolion Sabbothol y Trefnyddion Calфинаidd*, 1949

Who's who?

Dolenni Ychwanegol

VIAF: 202217195

Wikidata: Q20748846

Dyddiad cyhoeddi: 1970

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.



Arddull APA



Parry-Williams, T. H., (1970). ANWYL, JOHN BODVAN ('Bodfan'; 1875-1949), gweinidog gyda'r Annibynwyr, geiriadurwr, ac awdur. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 14 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c2-ANWY-BOD-1875>

Cyfrannu

Preifatrwydd a Chwcis
Hawlfraint
Y Prosiect
Cymorth
Cysylltu

LGC
NLW

LLYFRGELL
THE NATION



Yn ddiwydwr gan:
Llywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government